Y Parchedig R. J. Jones
1931-61

Un o ardal Wrecsam oedd y Parchedig R. J. Jones yn wreiddiol. Collodd ei fam yn blentyn pedair oed a magwyd ef gan ei nain, Jane Evans ym Mwlch Gwyn a'i godi yng nghapel Annibynnol y Blaenau, Treuddyn. Enillodd raddau B.A. a B.D. yng Ngholegau Bangor a Bala Bangor. Ar ôl gadael coleg, derbyniodd alwad i Gaersalem, Pontyberem. Bu yno am dros ddeuddeng mlynedd nes derbyn galwad i Minny Street yn 1931. Mae cof da gan lawer o aelodau presennol Minny Street am y Parchedig R. J. Jones a'i briod, a'r ddau fab Gwilym ap Robert a'r diweddar Hywel ap Robert. Ceir gwerthfawrogiad llawn o weinidogaeth y Parchedig R. J. Jones a'i argyhoeddiad mawr yn heddychwr gan D. Llewelyn Walters yn *Braslun o Hanes Eglwys Annibynnol Minny Street Caerdydd 1884-1984.* Bu'n Llywydd yr Undeb yn 1955-6 ac yn Gadeirydd y Bwrdd Cenhadol yn Llundain 1958-9.

Un â meddwl neilltuol ganddo o'r Parchedig R. J. Jones yw'r Parchedig Huw Ethall ac ni allwn wneud yn well na dyfynnu ei deyrnged iddo yn dilyn ei farwolaeth 25 Hydref 1973 ac a gyhoeddwyd yn *Y Tyst* (8 Tachwedd 1973),

> *'Un "R. J." oedd, wrth gwrs: un R. J. yn yr enwad ac un R. J. yn weinidog. Colled fwy na'r cyffredin yw colli un felly.*
> *Blynyddoedd rhyfel oedd hi pan euthum i Minny Street gyntaf, ac ni bûm yno'n hir cyn sylweddoli bod rhywun arbennig yn y pulpud. `Roedd rhywbeth yn ei lais, rhywbeth yn ei osgo, rhywbeth yn ei bregeth. Ac yr oedd dyn yn methu â thorri'n rhydd.*
> *Erbyn hyn, `rwy'n sylweddoli mai 'galwad' oedd yn y llais, a'r llais hwnnw a'm harweiniodd i – fel eraill yn wir – i'r Weinidogaeth Gristnogol.*
> *Fe ellir dadlau'n academaidd glyfar weithiau pam yr â ambell un i'r alwedigaeth honno (a heddiw pam nad â rhai iddi). O'm rhan i fe glywais "Y Llais", fe glywais "Yr Alwad", yn ei lais ef.*
> *Ef, mae'n siwr, fuasai'r cyntaf i wadu hyn a dweud nad dyn, nad dynion, sy'n galw. Gwir, ond un o gyfryngau'r Efengyl honno oedd R. J. i mi. Ac i 'alw' rhai ohonom. A phwy a feddyliai y gallasai neb ar adeg o ryfel sôn am alwad cariad yng nghanol môr o gasineb, glywed galwad cymod yng nghanol berw o bropaganda a llais Tywysog Tangnefedd gyda thywysogion y ddaear mor uchel eu cloch? Ond yr oedd ef ei hunan dan alwad, dan orfodaeth ddwyfol i gyhoeddi'r neges ac nid ildiodd.*
> *I ni yr oedd yn arwr pur. Ond tynnodd lu o elynion i'w ben. Bu aelodau Minny Street yn deyrngar iawn iddo ar adeg anodd, a chlod iddynt am hynny.*
> *Ar adeg ei farwolaeth daw un o'i ymadroddion yn fyw i'r cof: soniai yn ddi-feth am "y gobaith gwyn" i gysuro galarwyr ar adeg y brofedigaeth. Sôn am hwnnw a wnâi yn awr, er mwyn inni ddal ein gafael yn hwnnw.*
> *A'r ochr draw, bydd Thomas Rees a George M. Ll. ac eneidiau dethol cyffelyb eraill yn rhoi iddo groeso arbennig. A Thywysog Tangnefedd ei Hun a ddywed,* "Da was da a ffyddlon ...".'

Mae coflech i'r Parchedig R. J. Jones ar fur y capel ac arni'r arysgrif '*Rhodiwch mewn cariad*'.

(Glyn E. Jones *allan o* ***Llewyrch Ddoe, Llusern Yfory***. 2009. *Gol:* J. Gilbert Evans, Glyn E. Jones, Iolo M.Ll. Walters; cyhoeddwyd gan Eglwys Annibynnol Minny Street Caerdydd)